

TROSOLWG Y PRIF WEITHREDWR

Bu 2023 yn flwyddyn ryfeddol i Borthladd Aberdaugleddau. Er bod y cefndir economaidd byd-eang, sydd bob amser yn effeithio'n drwm ar ein busnes, yn parhau i fod yn gythryblus, fe wnaethom ganolbwyntio'n gryf ar gyflawni ein nodau strategol a chynnal gweithrediad rheng flaen diogel, cynaliadwy a dibynadwy i'n cwsmeriaid. Hefyd, rydyn ni wedi dwysáu ein cydweithrediad â rhai o'r cyrff allweddol sy'n cefnogi agendâu Cymru a'r DU ar gyfer cyflawni targedau sero net. Fe wnaeth ein Porthladd, sydd wedi'i angori'n gadarn yn Sir Benfro, feithrin cysylltiadau cryfach â sefydliadau a phobl sy'n gwybod orau sut i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau arfordirol bregus.

A ninnau'n 65 oed eleni, rydyn ni wedi neilltuo amser i gnoi cil ar ein hynt fel busnes a phwyso a mesur ein dyfodol hefyd. Gyda hynny mewn golwg, hoffwn ychwanegu fy niolch personol i bawb a'n helpodd i wneud 2023 yn flwyddyn mor deilwng i ddatlu, yn ogystal ag i bawb sydd wedi chwarae rhan yn nhwf a datblygiad y Porthladd yn ystod y 65 mlynedd hyn.

Perfformiad

Rwy'n falch bod ein trosiant wedi tyfu bron i 5% ar lefelau 2022, er gwaethaf gostyngiad bach yn nhrwybwn morgludiant y Porthladd – sy'n dyst i'r portffolio amrywiol o ffrydiau refeniw y mae'r Grŵp bellach yn elwa arno. Y llynedd, fe wnaethom ailddatgan ein hymrwymiad i arallgyfeirio fwyfwy a chanolbwyntio ar strategaeth ar gyfer twf, felly rwy'n falch iawn bod y Porthladd wedi cofnodi ei drosiant uchaf erioed yn 2023, gyda refeniw o fwy na £40m am y tro cyntaf yn ei hanes.

Er ei bod hi'n bwysig tyfu ein menter, mae'r un mor bwysig sicrhau twf proffidiol hefyd, gan mai dim ond gyda busnes proffidiol y gallwn ni ail-fuddsoddi i sicrhau y gallwn ddarparu'r gwasanaeth gorau i'n cwsmeriaid a rhoi cyfle i ni wneud cyfraniadau ystyrlon i'n cymunedau arfordirol lleol (mae rhagor o fanylion am hyn yn y darn Ein Rhanddeiliaid). Er gwaethaf colled gyffredinol i'r Grŵp ar ôl treth, yr elw gweithredol am y flwyddyn oedd £4.1m, cynnydd o £2.2m ers 2022.

Drwy dyfu ein busnes yn broffidiol ac ychwanegu'n gadarnhaol at ein portffolio amrywiol o weithrediadau, byddwn yn gallu cyflawni disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Bydd hyn yn sicrhau llwyddiant i'r Porthladd am y 65 mlynedd nesaf er budd cenedlaethau'r dyfodol, y pwysicaf o'n rhanddeiliaid.

Roedd llif prysur o lwythi ynni yn golygu bod y rhan Gwasanaethau Morol o'n busnes wedi sicrhau bod masnachu cyffredinol yn fywiog unwaith eto. Cyfanswm y tunelli cargo ar gyfer 2023 oedd 34.7m, sef 11% yn is na 2022 (38.9m tunnell).

Cyfaint cargo (Mae hyn yn ymwneud â chludiant cargo ffisegol)	34.7m tunnell (10.8% yn is ↓)
Tunelledd Gros (GT) (Mae hyn yn ymwneud â chyfaint mewnl y llongau)	58.7m GT (7.7% yn is ↓)

Cafodd gwasanaethau'r cei flwyddyn gymysg arall. Dewisodd fflydoedd pysgota ar y môr ddadlwytho eu dalfeydd yn yr UE yn hytrach na Dociau Pysgota Aberdaugleddau, ac roedd llai o gwmnïau cludo nwyddau a theithwyr yn defnyddio'r gwasanaeth fferi. Gan na chafodd y derfynfa fferi flwyddyn gystal â'r disgwyl, arweiniodd hynny at elw gwannach a lleihau gwerth y seilwaith terfynfa fferi ymhellach yn sgil tangyflawni parhaus. Fodd bynnag, gwrthbwysswyd hyn gan y flwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed yng Nghei 1 Porthladd Penfro, a oedd yn brysur dros 9 diwrnod allan o bob 10 gydol y flwyddyn, yn rhannol oherwydd mwy o draffig yn gysylltiedig â'r sector ynni.



Safety



Excellence



Collaboration



Sustainability

THE UK'S LEADING ENERGY PORT

mhpa.co.uk

Cafodd ein buddiannau Lletygarwch a Thwristiaeth flwyddyn dda, yn anad dim diolch i berfformiad ardderchog gwesty Tŷ Glanfa Aberdaugleddau gyda 76.8% o'r ystafelloedd yn llawn ar gyfartaledd. Mae llwyddiant y gwesty, fel buddsoddiad i ni ac fel sbardun ar gyfer denu cwsmeriaid a masnach newydd i'r dref, yn arwydd o'n harallgyfeirio i'r economi ymwelwyr, ac yn brawf y gall Aberdaugleddau gystadlu â'i chymdogion arfordirol mwy enwog fel cyrchfan boblogaidd.

Parhaodd ein portffolio buddsoddi Eiddo a Datblygiadau a'n araeau solar ffotofoltaig i ddarparu enillion cadarn a phrin fu unrhyw newidiadau ym meddianwyr ein heiddo, gyda'n tenantiaid manwerthu a lletygarwch, yn arbennig, yn llwyddo i oroesi blwyddyn anodd arall. Hefyd, croesawyd Greggs a McDonald's i Barc Manwerthu Havens Head, gan eu hychwanegu at restr gynyddol o frandiau mawr sy'n ymgartrefu yn Aberdaugleddau. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydyn ni'n falch o fod wedi helpu i greu dros 130 o swyddi lleol newydd.

Ar y cyfan, byddwn yn dweud bod perfformiad cyffredinol y flwyddyn yn gadarn a chalonogol.

Cyflwyno strategaeth newydd

Mae ein cynllun twf strategol newydd yn canolbwyntio ar gyflawni tri uchelgais allweddol dros y 5-10 mlynedd nesaf:

1. Ehangu ein gallu llywio llongau o'r radd flaenaf

Mae'n rhaid i ni fod yn borthladd o ddewis ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae hyn yn golygu buddsoddi yn ein gwasanaethau a'n cyfleusterau i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion heddiw ond hefyd yn barod ar gyfer gofynion sy'n newid.

Er gwaethaf gostyngiad bach yn ystod 2023, gwelsom gynnydd cyffredinol mewn symudiadau llongau i Aberdaugleddau a chryn alw cysylltiedig am ein gwasanaethau morol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n rhaid i ni barhau i fuddsoddi er mwyn sicrhau y gallwn nid yn unig chwarae ein rhan wrth yrru'r trawsnewidiad ynni sydd i ddod, ond hefyd moderneiddio ac ail-lunio ein cyfleusterau a'n gwasanaethau i fod yn barod ar gyfer tanwydd y dyfodol ac unrhyw ddefnyddiau eraill newydd o'r Ddyfrffordd. Er yr holl drafod am hydrocarbonau ar hyn o bryd, does dim dwywaith ein bod ni a'r economi ranbarthol mewn sefyllfa well i arwain y newid i ynni adnewyddadwy diolch i'r buddsoddiadau sylweddol sy'n cael eu gwneud gan ein cwsmeriaid ynni traddodiadol. Mae'r galw cynyddol hwn, ynghyd â'r patrymau tywydd mwy eithafol, wedi ein harwain at benderfyniad pwysig i ymrwymo i fuddsoddiad sylweddol mewn llong drosglwyddo beilot newydd o'r radd flaenaf eleni. Bydd hyn yn gofyn i ni ehangu ein gweithlu rheng flaen hyfedr hefyd. Dyma gam cyntaf rhaglen fuddsoddi hirdymor, gwerth miliynau o bunnoedd, sy'n ceisio gwella ac ehangu gallu'r Porthladd i lywio llongau.

Mae cyhoeddiad RWE a Dragon LNG y byddant yn cydweithio ar gludiant gwasanaeth aml-gyfleustod (MUST) posibl - piblinell rhwng y ddau i bob pwrpas - yn dod â'r cyfle cyffrous o gludo CO2 gam yn nes. Mae gwaith arolygu a chomisiynu dyfeisiau gwynt arnofiol ar y môr eisoes wedi dechrau yn y Môr Celtaidd, ac rydyn ni wedi bod yn uwchraddio ein hystafell efelychydd i dreialu lefelau traffig uwch a phrofi gweithdrefnau ar gyfer ffurfiau a mathau newydd o longau yn defnyddio'r Ddyfrffordd.

2. Datblygu Glanfa Aberdaugleddau fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer twristiaeth, diwylliant, hamdden a thwristiaeth

Rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein strategaeth arallgyfeirio gyda buddsoddiadau mewn busnes ar wahân i'r porthladd. Roedd ein penderfyniad i fuddsoddi yn y gwaith o adeiladu gwesty Tŷ Glanfa Aberdaugleddau mewn cydweithrediad â The Celtic Collection wedi sicrhau enillion cryf a chreu cyfleoedd swyddi o safon i'n cymunedau hefyd.



Safety



Excellence



Collaboration



Sustainability

THE UK'S LEADING ENERGY PORT

mhp.co.uk

Er gwaethaf tywydd truenus dros yr haf, roedd Glanfa Aberdaugleddau fel ffair unwaith eto. Gyda chymysgedd mor ddeniadol o fusnesau ochr yn ochr â'r gwesty, a chalendr gwych o ddiwyddiadau Summerfest a drefnwyd gan ein tîm cyrchfan, mae Glanfa Aberdaugleddau bellach ar y map. Rydyn ni'n cydnabod yr anawsterau sy'n wynebu'r sector lletygarwch, ond yn hyderus am ein huchelgeisiau hirdymor. Hefyd, cyflwynwyd gwelliannau i'r cyfleusterau parcio ac rydyn ni'n ddiolchgar i Gyngor Sir Penfro am osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan newydd yno hefyd. Yn y cyfamser, roedd y rhestr aros ar gyfer y marina ar ei mwyaf erioed, ac rydyn ni wedi dechrau adolygu opsiynau ar gyfer ei ehangu.

Rydyn ni'n goruchwyllo mordwyo diogel yn y ddyfrffordd lanw gyfan. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i draffig masnachol yn unig ac mae'n bwysig sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u cefndir neu fodd, yn cael cyfle i fynd ar y dŵr os ydyn nhw'n dymuno. O ganlyniad, gwnaethom barhau i ddarparu cyllid ar gyfer pontynau cyhoeddus Cyngor Sir Penfro a phatrolau diogelwch gydol misoedd yr haf.

3. Datblygu Porthladd Penfro fel porthladd amlbwrpas sy'n barod ar gyfer ynni'r dyfodol gyda chynnig cyrchfan cam cynnar

Rydyn ni wedi cymryd camau breision gyda'n strategaeth twf ar gyfer Porthladd Penfro sydd â'r nod o ddatblygu porthladd amlbwrpas sy'n barod ar gyfer ynni'r dyfodol gyda chynnig cyrchfan cam cynnar. Trwy brosiect Ardal Forol Doc Penfro gwerth £60m a ariennir gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe i sefydlu Porthladd Penfro fel un o brif ganolfannau ynni adnewyddadwy y DU, gwelsom gwblhau'r llithrfa estynedig, pontynau cychod gwaith ac ardaloedd blociau estynedig. Hefyd, fel rhan o brosiect Ardal Forol Doc Penfro, cwblhawyd gwaith adnewyddu ar randai hanesyddol Sied Awyrennau Sunderland i greu pedwar gweithdy a swyddfa newydd, gyda dwy uned eisoes wedi'u rhentu.

Fel y soniodd ein Cadeirydd, roedd y cyhoeddiad ein bod gam yn nes at statws porthladd rhydd yn newyddion ardderchog ac yn dangos bod ein rhanbarth yn barod i arwain chwyldro diwydiannol gwyrdd newydd. Bydd sicrhau statws porthladd rhydd yn gam allweddol wrth gyflawni ein huchelgais hirdymor ar gyfer Porthladd Penfro.

Rydyn ni'n parhau i weithio ochr yn ochr â diwydiant a'r llywodraeth gan archwilio ffyrdd o ddatblygu seilwaith y porthladd er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i'r rhanbarth, i'r sector ynni a'r sector morol.

Partneriaethau

Mae buddion treulio amser yn gweithio'n agos gyda busnesau, asiantaethau a chyrrff llywodraethol eraill yn amlwg ar draws ein busnes. Ond nid ond ar lefel ddiwydiannol rydyn ni'n cydweithio - yn wir, mae peth o'r gwaith tîm mwyaf ystyrlon ac effeithiol y buom yn rhan ohono wedi digwydd ar lefel stryd. Rhoddwyd cefnogaeth i Milford Youth Matters gyda'u prosiectau 'Dan y Bont' a 'Winter Warmers'. Mae wedi eu helpu i estyn allan a gwella bywydau llawer a allai fod wedi cael eu gadael ar ôl fel arall. Eleni rydyn ni wedi gweithio gyda chwmnïau ynni, Cyngor Sir Penfro a Choleg Sir Benfro i helpu i ddenu mwy o fyfyrwyr benywaidd i ddiwydiannau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg), gan gynnwys ynni adnewyddadwy'r môr, trwy'r fenter SPARC (Pŵer Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy ac Adeiladu). Mae'r fenter newydd hon wedi adeiladu ar y gwaith rydyn ni'n parhau i'w wneud ochr yn ochr â Fforwm Arfordir Sir Benfro, Ynni Morol Cymru a Choleg Sir Benfro i ddysgu a chyffroi pobl ifanc am gyfleoedd yn y diwydiannau morwrol ac ynni er mwyn eu cymell a'u paratoi i wneud swyddi'r dyfodol.



Safety



Excellence



Collaboration



Sustainability

THE UK'S LEADING ENERGY PORT

mhp.co.uk

Ac yn olaf...

Mae ein staff yn ganolog i bopeth a wnawn, ac roeddwn wrth fy modd yn gweld y Porthladd yn ennill ardystiad Great Place to Work® eleni. I mi, mae hynny'n pwysleisio pa mor bell rydyn ni wedi dod ac yn adlewyrchu'r egni a'r brwdfrydedd rwy'n ei weld â'm llygaid fy hun wrth gerdded o amgylch y Porthladd. Mae pawb wedi cyfrannu at hyn, a dylai pawb fod yn falch o'n cyflawniad ar y cyd.

Hefyd, wrth i'w dymor fel Cadeirydd ddod i ben, hoffwn gydnabod cyfraniad Dr Chris Martin, am arwain Bwrdd y Porthladd gydag egni, brwdfrydedd a doethineb diflino dros y 7 mlynedd diwethaf. Yn arweinydd cryf, mae ei grebwyll, ei gymeriad cynnes a'i ymroddiad i'n busnes yn enghraifft berffaith o werthoedd ein porthladd ymddiriedolaeth. Rydyn ni'n Borthladd gwell diolch i'w angerdd a'i weledigaeth, ac mae'n gadael y busnes mewn lle gwell i randdeiliaid y dyfodol. Diolch o galon iddo am ei wasanaeth anhunanol.

Tom Sawyer, Prif Weithredwr



Safety



Excellence



Collaboration



Sustainability

THE UK'S LEADING ENERGY PORT

mhp.co.uk